MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi: Gwella'r ymateb i droseddau mewnfudo cyfundrefnol**

Rwy'n croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod yr argymhellion a amlinellir ynddo. Rwyf hefyd yn croesawu sicrwydd gan yr heddlu eu bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argymhellion, a byddaf yn monitro cynnydd Heddlu Dyfed-Powys wrth eu gweithredu.

Rwyf wedi nodi isod fy meddyliau a'r sicrwydd a gefais gan y Prif Gwnstabl yn ystod cyfarfod o'm Bwrdd Plismona ar 17 Mehefin 2025. Rwy'n cydnabod bod nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad yn argymhellion cenedlaethol. Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau y byddant yn adolygu unrhyw faterion perthnasol yn lleol unwaith y bydd diweddariadau cenedlaethol ar gael. Felly, mae fy ymateb yn canolbwyntio'n llwyr ar yr argymhellion sy'n berthnasol i heddluoedd lleol.

**Argymhelliad 2: Erbyn 30 Ebrill 2026, dylai prif gwnstabliaid sicrhau, bob tro y bydd aelod o'u heddlu yn adrodd am achos i Uned Gorchymyn a Rheoli Genedlaethol Gorfodi Mewnfudo, fod y swyddog adrodd yn cwblhau ac yn cyflwyno'r ddogfen wybodaeth ofynnol.**

Mae'n galonogol, er mai dim ond nifer gyfyngedig o ddigwyddiadau o droseddau mewnfudo cyfundrefnol a gofnodwyd o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys, bod hyfforddiant Gorchymyn a Rheoli wedi digwydd gyda hyfforddiant Dalfa, Rheoli Digwyddiadau'r Heddlu a nifer gyfyngedig o staff cudd-wybodaeth. Rwyf wedi cael sicrwydd bod recriwtiaid newydd hefyd yn cael eu hyfforddi, a bydd adran ddysgu a datblygu Heddlu Dyfed-Powys yn mynd i'r afael â chysondeb yr hyfforddiant hwn.

**Argymhelliad 4: Erbyn 31 Rhagfyr 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod ganddynt gynlluniau clir i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â throseddau mewnfudo cyfundrefnol.**

Rwyf wedi cael sicrwydd bod gan Heddlu Dyfed-Powys gynlluniau clir i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â throseddau mewnfudo cyfundrefnol.

Mae'n cael ei gydnabod yn genedlaethol y dylai pob cudd-wybodaeth yn ymwneud â throseddau mewnfudo cyfundrefnol fod wedi'i chysylltu â hashnod eisoes fel rhan o'r broses gofnodi. Fodd bynnag, rwy'n

ymwybodol nad yw Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud hyn ar hyn o bryd oherwydd problemau wrth uwchlwytho hashnodau i Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Rwyf wedi cael sicrwydd bod Heddlu Dyfed-Powys yn mynd trwy gyfnod profi ar hyn o bryd ac unwaith y bydd y cyfnod hwn wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, bydd yr hashnod perthnasol yn cael ei ddefnyddio'n weithredol i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth yn haws. Byddaf yn gofyn am ddiweddariad gan y Prif Gwnstabl maes o law.

**Argymhelliad 8: Erbyn 30 Ebrill 2026, dylai prif gwnstabliaid, gan weithio gyda'r Uned Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol, sicrhau bod personél perthnasol ym mhob heddlu yn y Swyddfa Gartref yn cwblhau'r pecyn hyfforddi Hydra ar droseddau mewnfudo cyfundrefnol.**

Rwyf wedi cael sicrwydd bod hyfforddiant Hydra yn cael ei arwain gan gydlynydd rhanbarthol ar hyn o bryd. Mae'n galonogol bod personél Heddlu Dyfed-Powys wedi mynychu pob un o'r tair sesiwn hyfforddi ar wahân sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf.

**Argymhelliad 9: Erbyn 30 Ebrill 2026, dylai prif gwnstabliaid, gan weithio gyda'r Uned Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol a'r Coleg Plismona, sicrhau bod personél perthnasol ym mhob heddlu yn y Swyddfa Gartref yn cwblhau pedwar modiwl y pecyn e-ddysgu troseddau mewnfudo cyfundrefnol.**

Rwyf wedi cael sicrwydd, er gwaethaf cyfradd isel cwblhau pecyn e-ddysgu troseddau mewnfudo cyfundrefnol o fewn Heddlu Dyfed-Powys, ei bod bellach wedi cael ei hargymell y dylid gwneud y pedwar modiwl o fewn y cwrs yn orfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Rwy'n ddiolchgar eich bod wedi cyhoeddi'r argymhellion hyn. Byddaf i a fy nhîm yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir trwy weithgarwch Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydu yn cael ei weithredu, er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona i drigolion ardal Heddlu Dyfed-Powys.